


KATIE AND TEX

Llyfr gweithgareddau Byw yn y Gofod






TEITHIO I'R GOFOD

Wrth edrych i fyny ar awyr y nos, mae Katie wedi meddwl erioed am sut i gyrraedd y lleuad. Mae'n cymryd oriau lawer i fynd i ochr arall y wlad i ymweld â'i Nain! Sut gall fod yn bosibl cyrraedd rhywle mor bell â hynny i ffwrdd?

Mae teithio i'r gofod yn gymhleth iawn gan fod llawer o bethau i'w hystyried pan fyddwch yn gadael y Ddaear. Mae rocedi arbennig iawn wedi cael eu dylunio i gyrraedd y gofod sy'n teithio ar 25,000 milltir yr awr – mae hynny'n 360 gwaith yn gyflymach na char ar y draffordd! Gelwir y bobl sy'n teithio y tu mewn i'r rocedi hyn yn ofodwyr. Gwyddonwyr sydd wedi cael hyfforddiant arbenigol yw'r rhain sy'n mynd i'r gofod i gynnal ymchwil am y gofod a'n planed.

TEITHIAU I'R GOFOD

Ar 23 Mawrth 2024, mae 383 o deithiau gofod â phobl arnynt wedi cael eu lansio. Mae Katie wedi bod yn edrych yn ôl ar yr holl deithiau gofod sydd wedi digwydd, ond dydy hi ddim yn gwybod ym mha drefn y gwnaethon nhw ddigwydd! **Allwch chi helpu Katie i roi trefn ar y teithiau gofod hyn o'r hynaf i'r diweddaraf?**



Taith Ofod Axiom 3 [2024]

STS [1982]

Taith Space Ship One 15P [2004]

Soyuz TM-27 [1998]

Shenzhou 9 [2012]

Apollo 16 [1972]

Voskot 1 [1961]

Crew Dragon Demo-2 [2020]

PLANEDAU PELL

Mae'n cymryd 30 munud i Katie a Tex fynd o'u tŷ i'r ysgol, all hi ddim dychmygu faint o amser y byddai'n ei gymryd iddyn nhw gyrraedd y gofod!

Mae gwrthrychau yn y gofod yn bell iawn oddi wrth ei gilydd ac mae'r pellteroedd yn golygu ei bod yn cymryd amser hir i fynd i unrhyw le. Os yw cae pêl-droed tua 100m, allwch chi gyfrifo faint o gaeau pêl-droed fyddai'n eu cymryd i fynd o'r Haul i'r planedau hyn?


MAE'R HAUL 57936384000 METR I FFWRDD O BLANED MERCHER: _____

MAE'R HAUL 149668992000 METR I FFWRDD O'R DDAEAR: _____

MAE'R HAUL 778922496000 METR I FFWRDD O'R BLANED IAU: _____

FFAITH DDIFYR


Mae blynyddoedd golau yn ffordd o fesur pa mor bell ydy gwrthrychau i ffwrdd yn y gofod. Ond nid mesur o amser yw hyn ond pellter.



MYND I'R GOFOD

Un o'r ffyrdd mwyaf poblogaidd i Ofodwyr fynd i'r gofod oedd drwy ddefnyddio cerbyd arbennig o'r enw 'Gwennol y Gofod'.

Allwch chi helpu Katie a Tex i labelu'r gwennol ofod hon?



Sganiwch y cod QR hwn i gael rhagor o wybodaeth am Wennol y Gofod

Cliciwch fi

Tanc Allanol: Mae'n cynnwys yr hydrogen hylifol a'r tanwydd ocsigen hylifol sy'n cael ei ddefnyddio i yrru'r wennol yn ystod y lansiad.

Prif Barasiwt: Mae'n cael ei ddefnyddio i arafu glaniad y cyfnerthwyr rocedi solet yn ddiogel er mwyn gallu eu hailddefnyddio.


Dec Hedfan: Lle mae'r criw yn rheoli ac yn llywio'r wennol ar daith i'r gofod.

Cilfach Cargo: Ardal storio gyda phrif llwythi gwennol fel lloerennau a bwyd.

Prif Injan: Injans sy'n gyrru'r wennol i orbit gyda'r tanwydd o'r tanc allanol.

Orbitwr: Rhan o'r wennol sy'n cynnwys criw a chargo sy'n orbitio ac yna'n dychwelyd i'r Ddaear.

Cyfnerthydd Roced Solet: Mae'n cyfnerthu'r wennol ar ddechrau lansiad i'w chodi oddi ar y ddaear.



Os argraffwch y dudalen hon, gallwch liwio eich gwennol eich hun!

DISGYRCHIANT YN Y GOFOD

Grym yw disgyrchiant sy'n tynnu gwrthrychau tuag at ei gilydd, sef beth sy'n eich cadw ar y Ddaear. Ond bydd gan bob gwrthrych ei dyniad disgyrchol ei hun ac mae angen ystyried hyn wrth lanio ar wrthrychau eraill yn y gofod. Mae'n gallu gwneud i bethau ymddangos yn drymach neu'n ysgafnach.

Os yw más Katie yn 40kg, allwch chi helpu Katie i gyfrifo ei phwysau ar wahanol leoedd yn y gofod? Rydyn ni wedi cwblhau'r cyfrifiad cyntaf i chi!

HAFALIAD

Pwysau = Mas x Disgyrchiant ar y gwrthrych hwnnw


	MAS (KG)		DISGYRCHIANT (M/S ²)		PWYSAU (KGM/S ²)
Y Ddaear	40	X	9.8	=	392
Lleud	40		1.6		
Iau	40		24.8		

FFAITH DDIFYR

Mas yw faint o fater y mae gwrthrych yn ei gynnwys. Po fwyaf o fater sydd gan rywbeth, y mwyaf y bydd yn pwyso. Er enghraifft, mae gan eliffant fwy o fater ynddo na llygoden felly mae ganddo fas mwy.

CYSAWD YR HAUL

Mae teithio yn y gofod yng nghysawd yr haul wedi'i gyfyngu gan ba mor bell i ffwrdd yw'r planedau o'r Ddaear. Edrychwch ar y map o gysawd yr haul ac atebwch y cwestiynau hyn:



Pa un yw'r blaned bellaf oddi wrth y Ddaear?

Pa un yw'r blaned fwyaf?

Pa un yw'r blaned leiaf?

Pa un yw'r unig blaned gyda chylchoedd i'w gweld o'r ddaear?

Pa un yw'r ail blaned oddi wrth yr Haul?

FFAITH DDIFYR

Mae'r holl blanedau ac eithrio'r Ddaear wedi'u henwi ar ôl Duwiau'r Groegiaid a'r Rhufeiniaid.


YR ORSAF OFOD RYNGWLADOL

Ychydig iawn o bobl sy'n cael byw yn y gofod, ac mae'r rheini sydd yn byw yno yn byw ar yr Orsaf Ofod Ryngwladol. Mae'n lle mawr ac yn pwysu tua'r un faint â 320 o geir. Mae offer gwyddonol yno i'r ymchwilyr wneud eu gwaith a dysgu mwy am ein bydysawd.

Wrth i'r Orsaf Ofod Ryngwladol gylchdroi o amgylch y Ddaear, bydd yn cwblhau lap bob 90 munud. Mae hyn yn golygu y bydd y gofodwyr yno'n gweld yr haul yn codi 16 gwaith bob dydd. Hwn hefyd yw'r ail wrthrych disgleiriaf yn yr awyr ar wahân i'r lleuad, felly y tro nesaf y mae'n tywyllu ceisiwch edrych i fyny i'w weld yn pasio heibio!

RHAGOR O SYNIADAU:

Ble hoffech chi fyw yn y gofod?



DYLUNIO GORSAF OFOD

Mae'r Orsaf Ofod Ryngwladol wedi'i chynllunio i hyd at saith o bobl fyw arni ar yr un pryd. Mae dwy ystafell ymolchi, chwe man cysgu a champfa hyd yn oed!

Mae Katie eisiau mynd i'r gofod gyda'i holl ffrindiau. Mae cyfanswm o 6 ohonynt a byddai angen iddi wneud yn siŵr eu bod yn cael eu diddanu yno yn y gofod! **Allwch chi helpu Katie drwy ddylunio gorsaf ofod ar ei chyfer hi a'i ffrindiau? Meddyliwch am yr hyn y byddech chi eisiau ei wneud yn y gofod a dylunio'r cynllun.**

Gorsaf Ofod Katie

CERDDED YN Y GOFOD

Pan fydd gofodwyr yn cerdded yn y gofod, mae angen iddynt wisgo siwtiau gofod fel bod y pwysedd ar eu cyrff a'r tymheredd yn cael ei reoli, gan ganiatáu iddynt fyw a gweithio'n ddiogel.

Allwch chi gyfrifo'r gwahaniaeth rhwng y ffactorau hyn yn y gofod ac yn y siwt ofod?

	GOFOD	SIWT	GWAHANIAETH
Tymheredd (°C)	-270	21	
Pwysedd (PSI)	0	14.7	

FFAITH DDIFYR

Gwactod yw gofod sy'n golygu nad oes dim ynddo – dim aer hyd yn oed.



YMBELYDREDD

Mae ymbelydredd yn fath o egni sy'n symud fel ton. Mae'r Haul yn ffynhonnell fawr o ymbelydredd ar y Ddaear ac yn y gofod, a dyna pam mae angen i ni wisgo eli haul i'n diogelu rhag yr haul. Mae gan yr Haul gylchred, felly bob 11 mlynedd mae cynnydd mewn fflerau solar sy'n achosi cynnydd mewn ymbelydredd.

Allwch chi helpu Katie i gyfrifo faint o gylchredau mae'r Haul wedi mynd drwyddynt yn ôl y nifer o flynyddoedd?

22 BLYNEDD = _____ Cylchred
110 BLYNEDD = _____ Cylchred
77 BLYNEDD = _____ Cylchred

FFAITH DDIFYR

Yn y gofod, mae math arall o ymbelydredd o'r enw Ymbelydredd Cosmig Galaethol sy'n dod o gysawd yr haul.

CYLCHDRO

Wrth i'r Orsaf Ofod Ryngwladol gylchdroi o amgylch y Ddaear, bydd yn cwblhau un cylch bob 90 munud.

Allwch chi helpu Katie i ddatrys y cyfrifiadau isod ynghylch sawl gwaith mae'r orsaf ofod yn cylchdroi o amgylch y Ddaear?

Sawl cylch fydd yr orsaf yn ei gwblhau mewn hanner diwrnod (12 awr)?


_____ Cylch

Sawl cylch fydd yr orsaf yn ei gwblhau mewn diwrnod (24 awr)?

_____ Cylch

Sawl gwaith byddech chi'n gweld yr haul yn codi ar yr orsaf ofod mewn diwrnod?

_____ Cylch



Allwch chi helpu Katie i lenwi'r bylchau isod am fyw yn y gofod? Mae'r holl eiriau sydd eu hangen arnoch i'w gweld isod.

Mae _____ a _____ gofodwyr yn gwanhau pan fyddant yn treulio amser yn y gofod oherwydd bod _____ disgyrchiant. Mae angen iddyn nhw _____ bob dydd drwy atodi eu hunain at eu hoffer ffitrwydd i aros yn _____. Hyd yn oed pan fyddan nhw'n cysgu, mae angen i'r gofodwyr gael eu strapio mewn sachau _____ i'w hatal rhag arnofio!

Gan ei bod mor anodd mynd â _____ i'r gofod, mae'r dŵr maen nhw'n ei yfed yn cael ei _____ drwy systemau hidlo fel eu bod yn gallu ei yfed eto. Mae hefyd yn golygu bod yn rhaid iddynt ddefnyddio ychydig _____ o ddŵr yn eu cawodydd er mwyn ei arbed. Er mwyn arbed dŵr a'i atal rhag _____ o amgylch yr orsaf, defnyddir toiledau arbennig sy'n fflysio'r gwastraff gydag _____ yn hytrach na dŵr.

dŵr

arnofio

aer

ailgylchu

cysgu

cadarn

bach

esgyrn

cyhyrau

dim

ymarfer corff



DEFNYDD O DECHNOLEG



Mae llawer o dechnolegau y gellir eu defnyddio i archwilio'r gofod. Mae peiriannau gwahanol fel telesgopau, cerbydau gofod (neu grwydrwyr) a lloerennau wedi cael eu defnyddio i ddysgu mwy am y bydysawd rydym yn byw ynddo. Gellir defnyddio'r rhain i ddod o hyd i sêr a phlanedau newydd, neu i archwilio'r rhai rydym eisoes yn gwybod amdanynt.

CERBYDAU GOFOD

Y blaned Mawrth yw'r blaned agosaf i'r Ddaear ond mae'n edrych yn wahanol iawn ac mae ganddi atmosffer gwahanol i'n blaned ni.


Mae crwydrwyr yn robotiaid ymchwil gwyddonol sy'n teithio o amgylch y blaned Mawrth yn chwilio ac yn cymryd samplau o'r arwyneb ac yn archwilio a oes dŵr ar y blaned. Os bydd dŵr ar ffurf hylif yn cael ei ganfod, byddai hyn yn golygu y gallai bywyd fodoli ar y blaned Mawrth.







Mae gwyddonwyr yn anfon gorchmynion at y crwydrwyr i ddweud wrthynt ble i fynd i archwilio. **Allwch chi helpu'r cerbyd hwn i lywio drwy'r ddrysfâ o grater Gale ar y blaned Mawrth i grater Cassini?**



GWRTHRYCHAU YN Y GOFOD

Wrth edrych i'r gofod, mae llawer o bethau i'w gweld fel sêr, planedau a lloerennau mewn orbit. **Mae Katie yn edrych i'r gofod gyda thelesgop ac yn gweld llawer o wrthrychau gwahanol. Allwch chi gyfrif sawl un o bob gwrthrych mae hi'n eu gweld a chreu siart pictogram yn y gofod isod?**



Y LLEUAD

Mae lloerennau'n wrthrychau sydd mewn orbit o gwmpas corff (mae'r Ddaear yn enghraifft o gorff). Mae sawl math o loerennau y mae pobl wedi'u rhoi mewn orbit o amgylch ein planed am wahanol resymau. **Allwch chi gysylltu'r math o loeren â'r dasg i Katie drwy dynnu llinell rhyngddynt?**

Lloeren Lywio



Ffonio ei ffrind.

Lloeren Gyfathrebu

Edrych ar y tywydd

Lloeren Arsylwi'r Ddaear






Gyrru i'r ysgol

FFAITH DDIFYR

Lloeren yw'r lleuad.

SPACE MEASUREMENTS


Pan fydd mesuriadau'n cael eu cymryd yn y gofod, yn hytrach na defnyddio'r cyfesurynnau hydred a lledred rydyn ni'n eu defnyddio ar y Ddaear, defnyddir esgyniad cywir (RA) a gogwydd (DEC). Mynegir RA mewn oriau, munudau ac eiliadau. Mynegir DEC mewn graddau. Allwch chi ddarllen lle mae'r gwrthrychau yn yr awyr isod? Mae cyfesurynnau Seren 1 eisoes wedi cael eu rhoi i chi.



SEREN 1 =	<u>6h</u>	RA	<u>+10</u>	DEC
Y LLEUAD =	<u> </u>	RA	<u> </u>	DEC
SEREN 2 =	<u> </u>	RA	<u> </u>	DEC

GWELD Y GWAHANIAETH

Mae Katie yn edrych drwy delesgop i'r gofod ac mae'n cymryd dwy ddelwedd o'r hyn mae hi'n ei weld. **Allwch chi ei helpu i weld yr 8 gwahaniaeth yn y ddwy ddelwedd? Rhowch gylch o amgylch pob gwahaniaeth y gallwch ddod o hyd iddo.**





BWYD Y GOFOD

Mae Katie yn gwybod y dylech chi fwyta deiet cytbwys ac iach ar y Ddaear, sydd hefyd yn wir am fwyta yn y gofod. Fodd bynnag, gan na allwch fynd i archfarchnad yn y gofod, mae angen mynd â bwyd i'r gofodwyr ar yr orsaf ofod. Mae llawer o bethau i'w hystyried wrth fynd â bwyd i'r gofod, fel sut i'w gadw er mwyn iddo allu para'n hir i'r gofodwyr.

GALLU NEU METHU EI FWYTA

Bu Katie'n pendroni pa fwyd y gall gofodwyr ei fwyta neu ei yfed yn y gofod. Isod, rhowch gylchoedd o amgylch y bwydydd a'r diodydd y gallwch chi eu cael yn y gofod?

Bara

Diodydd Swigod

Grawnfwyd

Te

Gronynnau Halen

Cawl

Caws Macaroni

Cnau

AWGRYM

Dadhydradu yw pan fydd y dŵr yn cael ei dynnu o fwyd. Mae bwyd yn cael ei gadw mewn cyflwr dadhydredig i bara'n hirach gan nad oes archfarchnadoedd yn y gofod



BWYD Y GOFOD

I gynnal eu mas cyhyrau yn y gofod, mae angen i ofodwyr fwyta **2800 calori** bob dydd.



Os oes gan un gneuen cashiw 8 calori, faint fyddai angen i ofodwr eu bwyta mewn diwrnod i gael eu holl galoriau?



1 Cneuen cashiw = 8 calori



_____ Cnau cashiw = 2800 calori

DEIET AMRYWIOL

Mae angen i ofodwyr gael amrywiaeth o fitaminau a mwynau ac mae angen iddynt fwyta diet amrywiol, nid un peth yn unig!

CADW BWYD

Mae sawl ffordd y gellir cadw bwyd i fynd i'r gofod. **Allwch chi gyfateb y disgrifiadau isod ag enw'r broses gadw?**



Oeri

Oeri i -180C i gadw'r bwyd. Mae hufen iâ yn fwyd sy'n cael ei gadw fel hyn.



Dadhydradu

Sterileiddio gydag ymbelydredd ïoneiddio. Mae bwyd môr yn fwyd sy'n cael ei gadw fel hyn.



Thermosefydlogi

Bwyd wedi cael ei gynhesu i dymheredd uchel iawn i ladd unrhyw facteria. Mae tiwna mewn caniau yn fwyd sy'n cael ei gadw fel hyn.



Rhewi

Mae'r dŵr yn cael ei dynnu allan o fwyd i atal unrhyw facteria rhag tyfu arno. Mae bwyd sych fel rhesins yn fwyd sy'n cael ei gadw fel hyn.




Arbelydru

Bwyd wedi cael ei oeri rhwng $0-50\text{C}$ i arafu twf bacteria. Mae llaeth yn fwyd sy'n cael ei gadw fel hyn.

PECYNNU

Yn aml, nid yw deunydd pecynnu ar fwyd gofod yn ddiddorol iawn. Mae bwyd fel arfer yn cael ei gadw mewn cynhwysydd wedi'i selio mewn gwactod gydag enw'r cynnyrch arno. **Allwch chi helpu i wella hyn drwy ddylunio eich deunydd pecynnu eich hun ar gyfer eich brand eich hun o rawnfwyd y gofod? Gallwch feddwl am yr enw ac edrychiad y deunydd pecynnu.**



PECYNNU

Amcangyfrifwyd bod pob aelod o'r criw yn y gofod yn cael **1.8kg o fwyd**, gan gynnwys y deunydd pecynnu, bob dydd. **Allwch chi ddefnyddio'r ffigur hwn i gyfrifo'r ateb, mewn cilogramau?**

Faint o fwyd fyddai ei angen ar un person am bedwar diwrnod? _____ Kg

Faint o fwyd fyddai ei angen ar bedwar o bobl mewn un diwrnod? _____ Kg

Faint o fwyd fyddai ei angen ar 10 o bobl mewn 10 diwrnod? _____ Kg

Faint o fwyd ar gyfer 4 o bobl mewn blwyddyn? _____ Kg

AWGRYM

Mae 365 diwrnod mewn blwyddyn





SWYDDI A GYRFAOEDD

Mae llawer o swyddi y mae pobl yn eu gwneud i ddarganfod mwy am y gofod. Mae gan ofodwyr yrfa adnabyddus iawn sy'n eu galluogi i fynd i'r gofod ac orbitio'r Ddaear. Fodd bynnag, nid oes angen i bob swydd fod yn y gofod i ddysgu mwy amdano.

Beth am ymuno â Katie a Tex i gael rhagor o wybodaeth am y swyddi y gallwch eu gwneud i archwilio'r gofod.

CHWILAIR

Mae cymaint o swyddi a gyrfaoedd sy'n archwilio'r gofod.
Allwch chi helpu Katie i ddod o hyd i'r rhai sydd wedi'u cuddio yn y chwilair hwn?

R G P A T T K C C J G T N Z Z R X X U D
T T W T Y F F I S E G Y D D D P Z F S O
V A V M R U X K U P I O I W V V G I I F
A V D D Y G E T A M E H T A M N E F Q O
K T H N Z T E H H A G T I Q R P T X Z R
E H A Z O K B Z H K Y M N R D O O Q Y Y
R N G D Y X Q K K W K X Y A W F B Q C W
A L X F R M W H G K N D P S V G O M I A
W D R T Z W X Q Z T N V J C X E R M V D
S K K M Z N D G H D Q C S N X A D J X D
K T E A I R Z D L Y U Q Q F A L D H L Y
T B S W B O Z J O Q V P H Y X I Y C Z N
X G I Q K A D R N S G H F J X H N D B N
I W N K Y K W U M O N A R P B J N Q A A
U B V E F D Y B F M H A D A I I A A D I
M G M F D Q S O T W T K D I X T I G O R
S E Y Y B M D H Z E N G X A D C R V X I
Q O R I K W M J R M T M X I D E I N B E
J E H O R S D N U N J A I Z Z T E Q V P
S T X O T O G E T H U N H U F T P D R L

Seryddwr

Gofodwr

Peiriannydd Awyrfod

Dadansoddwr Data

Mathemategydd



Peiriannydd Roboteg

Ffisegydd

SWYDDI A GYRFAOEDD

Mae llawer o wahanol fathau o beirianwyr sy'n rhan o deithiau gofod, gan gynnwys peirianwyr lloeren, mecanyddol a chyfathrebu. Gall yr arbenigwyr hyn osod, cynnal, profi ac atgyweirio unrhyw dechnoleg neu beiriant sy'n rhan o deithiau gofod.

Allwch chi helpu Katie i baru eitemau ar y panel rheoli isod? Mae angen i chi ysgrifennu beth yw'r siâp ac yna ei gyfateb i'r eitem gywir wedi'i rhifo isod.






SWYDDI A GYRFAOEDD

Mae gwneud yn siŵr bod pethau'n gweithio'n iawn yn y gofod yn bwysig iawn. Mae dylunydd cynnyrch gofod yn cymryd eitemau sydd eu hangen yn y gofod ac yn eu newid er mwyn iddynt allu gweithio yn yr amgylchedd yno. Mae dim disgyrchiant a'r tymheredd eithafol a'r pwysedd a brofir yn y gofod yn golygu ei bod yn anodd defnyddio eitemau rydyn ni'n eu defnyddio'n hawdd ar y Ddaear yn y gofod. **Ysgrifennwch y problemau neu'r heriau y gallai gofodwyr eu hwynebu wrth ddefnyddio'r eitemau bob dydd hyn yn y gofod.**


Toiled:



Offer Ymarfer Corff:



Mannau Cysgu:








GWYBODAETH AM KATIE A TEX

Mae Katie yn wyddonydd ymchwil. Mae'n cynnal arbrofion ac ymchwiliadau ar draws ystod eang o bynciau. Mae Katie wrth ei bodd yn dysgu am dechnoleg ac yn aml yn siarad â'i ffrindiau i gael gwybod sut mae pethau'n cael eu defnyddio yn eu meysydd gwaith. **Mae Tex yn gi robotig datblygedig a chlyfar iawn** sydd wedi cael ei greu gan Katie fel arbrawf ymchwil. Mae wedi cael ei raglennu i wybod llawer o ffeithiau ac i helpu Katie o amgylch y labordy - ac mae ganddo synnwr digrifwch direidus.



Sganiwch y cod QR hwn i weld mwy o anturiaethau Katie a Tex yn archwilio'r byd technoleg. Nod yr animeiddiadau byr hyn, sy'n ymdrin ag amrywiaeth o bynciau technoleg, yw ysbrydoli plant oed ysgol gynradd i feddwl a siarad am dechnoleg a'r rôl mae'n ei chwarae yn eu bywydau

Cliciwch fi